# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# (314)v4

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### Cwestiwn Brys

**Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am y Bil Undebau Llafur, yn sgil y llythyr gan Weinidog Gwladol y DU dros sgiliau ynghylch symud y Bil ymlaen yng Nghymru? EAQ(4)2717(FM)**R**

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud)

## 3 Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016

**NDM5950** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Rhagfyr 2015.

**Dogfennau Ategol**

Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 4 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016

**NDM5949 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Rhagfyr 2015.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 5 Gorchymyn Deddf Tai 1985 (Diwygio Atodlen 2A) (Troseddau Difrifol) (Cymru) 2016

(15 munud)

**NDM5948 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Deddf Tai 1985 (Diwygio Atodlen 2A) (Troseddau Difrifol) (Cymru) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2015.

**Dogfennau Ategol**

Gorchymyn Deddf Tai 1985 (Diwygio Atodlen 2A) (Troseddau Difrifol) (Cymru) 2016

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

## 6 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Cyfnod 4

(15 munud)

**NDM5955 Ken Skates (De Clwyd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

**Dogfennau Ategol**

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Memorandwm Esboniadol Diwygiedig

## 7 Dadl ar Gyllideb Ddrafft 2016-17

(120 munud)

**NDM5947 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-2017 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar 8 Rhagfyr 2015.

'Cynigion Cyllideb Ddrafft 2016-17'

**Dogfennau Ategol**

Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-2017

Adroddiad Y Pwyllgor Cyllid

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pob dim a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu nad yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 yn diwallu anghenion pobl Cymru.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw'r gyllideb ddrafft yn ymgymryd â dull gweithredu Cymru gyfan mewn perthynas â buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol;

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod y gyllideb ddrafft yn cynnig toriad niweidiol a difrifol i gymorth ariannol ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw cynnig drafft y gyllideb ar gyfer pwysau ariannu parhaus ar lywodraeth leol wedi cael ei baru â chynnig ar gyfer grant sefydlogi gwledig.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 10 Chwefror 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 4 Chwefror 2016 i'w hateb ar 9 Chwefror 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r ymgyrch i gadw dydd Sul yn arbennig ('Keep Sunday Special')? OAQ(4)2712(FM)

2. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag amseroedd aros y GIG yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)2711(FM)

3. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru): Beth yw polisi presennol Llywodraeth Cymru ar gyllid ar gyfer hosbisau yng Nghymru? OAQ(4)2709(FM)

4. Gwenda Thomas (Castell-nedd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu busnesau sy'n allforio? OAQ(4)2702(FM)

5. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i helpu cleifion canser pancreatig yng Nghymru? OAQ(4)2707(FM)

6. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2714(FM)

7. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd y mae'r GIG wedi'i wneud tuag at gynllun cyflawni ar gyfer strôc Llywodraeth Cymru ? OAQ(4)2708(FM)

8. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth sydd ar gael i gymunedau yr effeithir arnynt gan ddatblygu ffermydd solar? OAQ(4)2705(FM)

9. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth i ffermwyr Cymru o dan y cynllun datblygu gwledig? OAQ(4)2715(FM)**W**

10. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): Pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud tuag at gais gemau'r Gymanwlad? OAQ(4)2704(FM)

11. Christine Chapman (Cwm Cynon): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella iechyd pobl yng Nghwm Cynon? OAQ(4)2710(FM)

12. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y DU ynghylch refferendwm yr UE? OAQ(4)2713(FM)

13. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drafnidiaeth gymunedol? OAQ(4)2716(FM)**W**

14. Elin Jones (Ceredigion): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllido prifysgolion yn y flwyddyn ariannol 2016-17? OAQ(4)2703(FM)**W**

15. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fanteision bod aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd i Bontypridd a Thaf Elái? OAQ(4)2706(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 23 Chwefror 2016 a dydd Mercher 24 Chwefror 2016**
**Dydd Mawrth 1 Mawrth 2016 a dydd Mercher 2 Mawrth 2016**
**Dydd Mawrth 8 Mawrth 2016 a dydd Mercher 9 Mawrth 2016**

---

**Dydd Mawrth 23 Chwefror 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Y diweddaraf am y Rhaglen Buddsoddi i Arbed (30 munud)
- Rheoliadau Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tai a Chynllunio sy'n ymwneud â rhyddfreinio ac estyn lesddaliadau hir (30 munud)
- Cynnig i amrywio trefn Gwelliannau ar gyfer Cyfnod 3 y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (5 munud)
- Cynnig i ystyried trefn Gwelliannau ar gyfer Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn (60 munud)
- Dadl ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 – Dyletswydd i Adolygu – Adroddiad Terfynol (60 munud)

**Dydd Mercher 24 Chwefror 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (60 munud)
- Dadl ar yr adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar weithgareddau cynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, yr UE (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Russell George (Sir Drefaldwyn) (30 munud)

**Dydd Mawrth 1 Mawrth 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 (15 munud)
- Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2016 (15 munud)
- Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2016 (15 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2016 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Tai a Chynllunio sy'n ymwneud â Darpariaethau Prynu Gorfodol ac ati (15 munud)
- Cyfnod 3 y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (180 munud)

  *Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn*

*cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*

**Dydd Mercher 2 Mawrth 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ei adolygiad o Ddeisebau Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Jenny Rathbone (Canol Caerdydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 8 Mawrth 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgorio Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016 (15 munud)
- Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (15 munud)
- Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016 (15 munud)
- Cyfnod 4 y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (15 munud)
- Dadl ar Ail Gyllideb Atodol 2015-16 (30 munud)

- Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2016-17 (60 munud)
- Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 9 Mawrth 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)
- Dadl ar Setliad Llywodraeth Leol 2016-17 (60 munud)
- Dadl ar Setliad yr Heddlu 2016-17 (60 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig i gymeradwyo diwygiadau i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad (10 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Dyfodol ynni craffach i Gymru (60 munud)
- Dadl Fer - Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)